

# Allan â Ni! Y Diweddraf ynglŷn â'r Rhaglen



## Croeso i lansiad diweddariadau ALLAN Â NI!

Gan eich bod chi'n rhan o un o rwydweithiau Allan â Ni! byddwn yn anfon negeseuon cyson i chi er mwyn rhannu gwybodaeth ynglŷn â sut mae'r rhaglen yn datblygu, beth sydd wedi'i gyflawni a sut y byddwn yn symud ymlaen yn y dyfodol.

Yn y rhifyn cyntaf, bydd modd ichi weld detholiad o'r hyn sydd wedi'i ddatblygu gan aelodau o'r rhwydweithiau lleol yn gweithio ar y cyd yn ystod y misoedd diwethaf.

## Gweithio ar y cyd...

Mae Rhaglen Allan â Ni! yn dod â sefydliadau at ei gilydd er mwyn cynnig gweithgareddau awyr agored trwy weithio ar draws sectorau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi sefydlu rhwydweithiau mewn naw ardal ar draws Cymru ac wedi gweld nifer o bartneriaid newydd yn gweithio a'i gilydd.

Mae'r amrywiol ddigwyddiadau Rhwydwaith cychwynnol yn dwyn ynghyd weithwyr o'r sectorau iechyd, datblygiad cymunedol, ieuenctid, a'r sector awyr agored i weld pa adnoddau y gellir eu rhannu er mwyn cynnig cyfleoedd newydd i grwpiau cymunedol.

Erbyn hyn mae nifer o ddarparwyr yn ymgysylltu â phobl leol sydd wrthi'n penderfynu trwy ymgynghori, pa weithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt - gan arwain at gynnal 'sesiynau blasu'.



**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru  
Natural  
Resources  
Wales**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



communities first cymunedau yn gyntaf



LOTTERY FUNDED

## Sesiynau Blasu yn yr Awyr Agored

Er gwaetha'r tywydd gwlyb, rydym yn falch i fod wedi cael gweld rhai grwpiau yn mynd allan ac yn mwynhau'r amgylchedd naturiol yn sgil y digwyddiadau rhwydweithio. Dyma rai enghreifftiau:

### De Ddwyrain



Dywedodd Josh o Gasnewydd "O'n i'n meddwl ei fod yn eithaf da i fod yn onest!" ar ôl beicio yng Nghanolfan 14 Loc.

Mae pobl ifanc o **Gasnewydd** wedi bod yn beicio yng Nghanolfan 14 Loc gyda Kyle Williams o Feiciau Dinas Casnewydd, gan ddysgu ynglŷn â sut i gynnal a chadw beiciau, arfer da wrth feicio a'r gwaith o gynnal a chadw'r llwybrau.

Mae grŵp gwaith ieuenctid datgysylltiedig Maindee wedi bod yn beicio hefyd ac yn paratoi i wneud gwaith gwirfoddoli amgylcheddol. Rydym hefyd yn gweithio â grŵp o fenywod o gymdeithas menywod Ashianna yng Nghasnewydd sydd am roi tro ar weithgareddau fel cadw gwenyn a cherdded.

Mae grŵp Cwricwlwm Amgen Sparks yng **Nghaerffili** wedi bod allan yn dysgu am yr amgylchedd. Mae ffrwyth eu gwaith i'w weld wedi iddynt adeiladu'r fainc yma sydd nawr wedi'i leoli yng Nglaswelltir Aberbargod.



### Gogledd

Yng **Ngwynedd** rydym wedi bod yn gweithio â Chriw Garddio Caernarfon, sydd wedi bod yn datblygu darn o dir trwy weithio â phartneriaid newydd i'w cynorthwyo â'u sgiliau garddio.

Mae Ceidwaid Gwylt Plas Madoc **Wrecsam** wedi rhoi cynnig ar bysgota ac amryw o weithgareddau awyr agored arall â chefnogaeth Ceidwaid Parc Gwledig Tŷ Mawr.



### De Orllewin

Teithiodd grŵp Mamau Cymunedol o Drelái **Caerdydd** i Aberdâr er mwyn rhoi cynnig ar weithgareddau newydd yng Ngŵyl Darganfod y Cymoedd. Anogodd y profiadau hyn iddynt ddenu eu cymdogion i ymuno â hwy wrth ymarfer corff yn yr awyr agored. Ym mis Ionawr daeth grŵp Teuluoedd Iach at ei gilydd mewn sesiynau seiclo gyda Pedal Power. Wedi hyn, bu'r grŵp yn darganfod pa fwydydd gwylt oedd ar gael yn lleol a thaniwyd eu dychymyg yn nigwyddiad 'Dark Skies' wrth ddysgu am awyr y nos.



Grŵp Teuluoedd Iach o Drelái yn gwyllo'r 'Zombie Run' yng Nghwm Dâr ym mis Tachwedd. Nawr bwriadant greu helpa anfarwolion yn Nhrelái!

## Mwy o sesiynau blasu ar ddyfod...

Yng **Nghaerffili** mae cydweithwyr o Wasanaeth Troseddau Ieuenctid, Cyfoeth Naturiol Cymru, a Gwasanaeth Cefn Gwlad Caerffili (a ddysgodd inni sut i bobi bara dros ben tân yn ystod yr ail weithdy) yn cyfarfod i drefnu sesiynau blasu ar gyfer pobl ifanc yn ymwneud â gwirfoddoli amgylcheddol.



Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymini **Caerffili** yn trafod sut i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer grŵp cwricwlwm amgen er mwyn cynnwys opsiynau yn yr awyr agored. Mae sesiynau blasu wedi'u trefnu ar gyfer y bobl ifanc hyn yn ystod yr wythnosau nesaf.

Yn y **Bari** (lle creodd cyfranogwyr farcutiaid yn ein hail weithdy) rydym wedi cael cyfarfodydd cadarnhaol iawn gyda Chymunedau'n Gyntaf a'r Gwasanaeth Ieuenctid. Rydym wedi bod yn gofyn i grwpiau beth hoffent roi cynnig arni ac mae nifer o grwpiau yn mynd i gael blas ar weithgareddau yn ystod yr wythnosau nesaf.



Yn **Abertawe** rydym yn dwyn ynghyd grwpiau gwirfoddol presennol â'r bobl iawn yng Nghyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cynnig gwybodaeth arbenigol iddynt. Mae aelodau o'r Rhwydwaith yn siarad â grwpiau cymunedol i weld pa weithgareddau yr hoffent roi cynnig arnynt. Mae'r gweithgareddau posib yn cynnwys fforio'r goedwig, caiacio, cyfnewid had, hela pryfed, a llawer mwy. Mae dau o'r grwpiau yn bwriadu dod at ei gilydd er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd.

Mae Canolfan Ieuenctid Maesgeirchen **Bangor** yn barod i gael ei weddnewid gyda phrosiect gardd fwytadwy, fel yr awgrymwyd gan bobl ifanc o'r Clwb Swyddi Lleol. Maent eisoes wedi clirio'r safle ac wedi cwblhau murlun ar gyfer yr ardd. Mae Allan â Ni! yn gweithio â Phrifysgol Bangor er mwyn ceisio ariannu'r prosiect, ac yn mynd i gefnogi sesiynau blasu i ddatblygu sgiliau a chyfarparu'r grŵp, gyda'r bwriad o gynyddu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer y bobl ifanc.

## Rhwydweithiau Newydd ar y Gorwel...

**Merthyr Tydfil** yw ein rhwydwaith diweddaraf ac mae'r gwaith o ymgysylltu â grwpiau wedi dechrau.

Bydd grŵp iechyd meddwl o elusen Hafal yn mynychu sesiynau blasu yn fuan.

Ym mis Mawrth lansiodd ein rhwydwaith yn **Rhondda Fach**, cynhaliwyd gweithdy dilynol ar y 29ain o Ebrill...

... ac ym mis Mai rydym yn sefydlu rhwydwaith **Torfaen a Pen-y-bont ar Ogwr**.

## Monitro a Gwerthuso

Credwn fod gwerthuso'r hyn rydym yn ei wneud a'r effaith mae ein gwaith yn ei gael yn hanfodol, er mwyn ein galluogi i gofnodi a dathlu'r hyn rydym wedi ei gyflawni ac i ddeall beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio. Rydym wedi contractio ymgynghorwyr Trelein a Shephard a Moyes i'n cynorthwyo â hyn.

Cynhaliwyd gweithdai gan ein contractwyr gydag aelodau o Rwydweithiau Allan â Ni! yn Wrecsam, Casnewydd a Chaerdydd. Arddangoswyd manteision monitro a gwerthuso a thechnegau amrywiol a ellid eu defnyddio er mwyn sicrhau bod casglu data yn syml ac yn ddefnyddiol. Byddwn yn cynnal gweithdai tebyg gyda rhwydweithiau arall yn y dyfodol agos.

### Hoff ddyfyniadau...

Gan Grŵp Teuluoedd Iach Trelái

*Doeddwn ni ddim yn gwybod fod y lle yma'n bodoli. Dwi am ddod 'nol yn yr wythnos i ymarfer.*

*Heddiw oedd y tro cyntaf imi reidio beic. Dwi ddim yn gallu gwneud corneli eto ond dwi'n benderfynol o lwyddo!*

*Dwi'n dwli ar seiclo - dwi ddim yn ei weld fel ymarfer corff!*



## Beth sy'n digwydd nesaf...

### Rhwydweithio

Rydym yn edrych ar opsiynau TG er mwyn dwyn y Rhwydweithiau ynghyd ac er mwyn i'n rhanddeiliaid gyfathrebu, rhannu gwybodaeth a chysylltu â'i gilydd yn rhwydd. Bydd hyn yn galluogi mwy o weithio traws-sector. Mae'r e-bost hyn yn rhan o'r broses yma.

### Ehangu

Byddwn yn sefydlu rhwydwaith Allan â Ni! newydd yn Y Rhyl yn ystod y misoedd nesaf. Bydd hyn yn cyflawni ein bwriad o sefydlu 12 rhwydwaith mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf ar draws Cymru.

## Yn Olaf...

Rydym wastad yn edrych am gyfloed newydd, felly cysylltwch â ni os hoffech chi gyfrannu i'r prosiect - efallai trwy gynnig eich amser a'ch arbenigedd, trwy ein cysylltu â grŵp cymunedol, neu unrhyw beth arall a fyddai'n helpu pobl i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag defnyddio ardaloedd gwyrdd lleol, cynyddu gweithgarwch corfforol neu wella sgiliau, hyder a lles cyffredinol.

Cysylltwch â: **Adell Bridges** Swyddog Cefnogi Prosiect Allan â Ni!

[adell.bridges@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:adell.bridges@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

02920 772416 / 07876 137143